

OWAIN, OWAIN LLEWELYN (1877 - 1956), llenor, cerddor, a newyddiadurwr

Enw: Owain Llewelyn Owain

Dyddiad geni: 1877

Dyddiad marw: 1956

Priod: Enid May Parry (née Jones)

Priod: Claudia Parry (née Roberts)

Rhiant: Mary Owen

Rhiant: Hugh Owen

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: llenor, cerddor, a newyddiadurwr

Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Perfformio

Awdur: Evan David Jones

Ganwyd 3 Gorffennaf 1877 ym Mlaenyryrfa, Tal-y-sarn, Dyffryn Nantlle, Sir Gaernarfon, yn un o wyth plentyn **Hugh Owen** a Mary ei wraig. Pan oedd Owain yn ieuanc, symudodd y teulu i Fryn-y-coed yn yr un ardal. Yn 12 oed aeth y llanc i weithio yn chwarel y Gloddfa Glai a 'Cornwall' ar ôl hynny. Pan oedd yn 15 oed cymerodd at yrfa mewn newyddiaduriaeth a bu ar staff olygyddol *Y Genedl Gymreig* a'r *Genedl a'r Herald* wedi uno'r ddau bapur. Ymddeolodd tuag 1936 ond parhaodd i gyfrannu i'r wasg Gymraeg a Saesneg. Yr oedd yn newyddiadurwr medrus ac yn ohebydd gofalus. Gan fod ganddo ddawn y llenor a'r cerddor yr oedd ei erthyglau ar wyliau mawr y genedl yn gyfraniadau disglair yn y wasg newyddiadurol. Bu'n arwain cymanfaoedd canu yng Nghymru a Lloegr. Hyfforddodd lawer o gerddorion a bu'n beirniadu cerddoriaeth mewn mwy na 550 o eisteddfodau ac yr oedd rhaglenni'r rhain yn ei feddiant. Yr oedd yn gasglwr llyfrau craff a thystiai fod ei lyfrgell yn fwy helaeth nag un **Bob Owen**, Croesor. Yr oedd ganddo gôr bychan, 'Côr y Delyn Aur', a gafodd wobrau lawer mewn eisteddfodau. Yr oedd yn un o sylfaenwyr Clwb Awen a Chân yng Nghaernarfon, ac ef oedd ysgrifennydd y clwb. Cymerodd ddiddordeb mawr yn Urdd Gobaith Cymru yng Nghaernarfon o ddyddiau cynnar y mudiad, ac ef a ofalai am drefnuswydd y gorymdeithiau ar achlysuron arbennig yn y dre. Bu'n selog yn achos dirwest gyda'r Rechabïaid a'r Temlwr Da.

Cyhoeddodd nifer o gofiannau megis *Fanny Jones* (1907), *Ieuan Twrog* (1909), *J. O. Jones (Ap Ffarmwr)* (1912), *T.E. Ellis* (1916), *Anthropos a Chlwb Awen a Chân* (1946), *Bywyd, gwaith ac arbedd Anthropos* (1953), erthyglau yn *Y Traethodydd* a'r *Drysorfa*, *Cerddoriaeth yng Nghymru* (1946), a'r gwaith safonol *Hanes y Ddrama yng Nghymru 1850-1943* (1948) sydd yn dalfyriad o'r traethawd a enillodd iddo'r wobwr yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1943. Ei wobwr fawr gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol oedd am 'Weithiau ac athrylith Llew Llwyfo' ym Mae Colwyn yn 1910, pryd yr enillodd **R. Williams Parry** y gadair am awdl 'Yr Haf'. Trefnwyd gorymdaith gyda seindorf Nantlle ar y blaen i groesawu'r ddau adre o'r eisteddfod honno.

Priododd (1) Claudia Roberts, 12 Mehefin 1916 a bu iddynt un ferch. Bu farw ei wraig 29 Tachwedd 1918 a phriododd (2) yn 1921 Enid May Jones, Y Felinheli. Bu farw yn ei gartref Bryn-y-coed, 10 Pretoria Avenue, Caernarfon, 8 Ionawr 1956 gan adael gweddw, a mab a merch. Amlogwyd ei weddillion ym Mhenbedw.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Yr Herald Cymraeg a'r Genedl, 16 Ionawr 1956

Y Goleuad, 18 Ionawr 1956

Gweithiau

Owain Llewelyn Owain, Owen Griffith Owen, *Cofiant Mrs. Fanny Jones, gweddw y diweddar Barch. J. Jones, Talysarn*(Machynlleth 1907)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20751820

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Preifatrwydd a Chwciis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiolch i
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government